



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Caerdydd CF99 1NA

23 Chwefror 2026

Annwyl Gadeirydd

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Diwydiant Cymru

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Ionawr yn gofyn am gopi o'r adroddiad adolygu a oedd yn llywio penderfyniad Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch dyfodol Diwydiant Cymru.

Yn dilyn fy mhresenoldeb yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar 12 Chwefror, ac fel y dywedais yno, rwy'n cadarnhau fy ymwybodol o'r llythyr rydych yn cyfeirio ato sydd wedi dod i law'r Pwyllgor oddi wrth Gadeirydd a Phrif Weithredwr Diwydiant Cymru. Mae'r llythyr yn nodi ystod o fyfyrddodau sy'n ymwneud â phrosesau archwilio diweddar, effeithiau sefydliadol, a materion sy'n ymwneud â'r penderfyniad diddymu. Rwy'n gwerthfawrogi natur a sensitifrwydd rhai o'r materion y mae cydweithwyr wedi'u codi ac yn cydnabod diddordeb y Pwyllgor mewn deall y rhain ymhellach.

Fel yr addewais yn ystod sesiwn y Pwyllgor, atodaf gopi o'r adroddiad adolygu yn gyfrinachol. Rydym yn darparu'r adroddiad yn llawn, gyda dim ond ambell hepgoriad ar gyfer gwybodaeth bersonol. Gwnaeth yr adroddiad lywio penderfyniadau gweinidogol ac rwy'n credu y bydd hyn yn helpu'r Pwyllgor wrth ystyried y materion. O ran y broses, deallaf fod yr adroddiad wedi'i drafod ar ffurf drafft gyda Phrif Weithredwr Diwydiant Cymru ddiwedd y gwanwyn diwethaf, a bod y Datganiad arfaethedig (yn cyfathrebu canlyniad yr adolygiad, a phenderfyniad Ysgrifennydd y Cabinet) wedi'i drafod yn yr un modd gyda thîm Diwydiant Cymru ar ffurf drafft ymlaen llaw. Mae trafodaethau'n parhau gyda chydweithwyr Diwydiant Cymru ar y camau nesaf.

Rhowch wybod i mi os oes angen rhagor o wybodaeth ar y Pwyllgor.

Dymuniadau gorau.

Yn gywir

Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth